Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Abercynon

**Greenfield Terrace**
**Glancynon**
**Abercynon**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF45 4TH**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Abercynon

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Abercynon |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 273 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 200 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 30 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 17.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 3.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 7.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Mawrth 2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 18/05/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/10/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae pennaeth dros dro Ysgol Gymraeg Abercynon yn gweithio'n ddiwyd gydag arweinwyr i adnabod cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Yn ddiweddar, mae hi wedi dyrannu cyfrifoldebau i staff yn fwriadus ac yn annog cydweithio cyson i'w chefnogi i ddechrau ymateb i anghysondebau ar draws yr ysgol. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu'r ddarpariaeth a chefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu amgylchedd dysgu cynhwysol a chynhaliol i ddisgyblion. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn datblygu perthynas waith ofalgar a diogel wrth eu cefnogi i ddysgu. Mae staff yn annog disgyblion i feithrin lles ac agweddau cadarnhaol at eu dysgu sy'n cymell llawer i gyflawni'n dda. Yn yr arfer addysgu orau, mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac maent yn eu cefnogi a'u herio'n effeithiol i ddatblygu eu medrau mewn gweithgareddau cyfoethog ar draws y cwricwlwm. Yn yr arfer llai effeithiol, mae ychydig o athrawon yn gor-arwain y dysgu sy'n cyfyngu disgyblion o ran gwneud penderfyniadau am beth i'w gyflwyno yn eu gwaith a sut. Mae hyn yn arafu eu cynnydd wrth iddynt ddatblygu eu medrau'n addas mewn ystod briodol o weithgareddau.

Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn falch o gyfathrebu yn y Gymraeg ac yn annog eu ffrindiau i siarad a defnyddio'r iaith yn eu dysgu a'u chwarae. Mae llawer yn ymddwyn yn barchus ac yn cefnogi ei gilydd i ddysgu yn dda. Yn gyffredinol, maent yn mwynhau defnyddio eu medrau i fod yn ddysgwyr brwdfrydig a chreadigol, er enghraifft mewn gweithgareddau celf a chelfyddydau mynegiannol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a digidol yn gyson ar draws y cwricwlwm. Er bod medrau mathemateg disgyblion yn datblygu'n gadarn, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi'r mwyafrif i ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon effeithiol mewn profiadau dysgu ystyrlon. At ei gilydd, mae disgyblion yn dechrau dangos dyfalbarhad a gwydnwch addas wrth iddynt ddechrau meithrin eu medrau dysgu annibynnol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau disgwyliadau uchel a chyson gan athrawon i gefnogi a herio disgyblion i gyflawni safonau uchel mewn gweithgareddau ysgogol

A2 Darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau, yn enwedig rhifedd, yn annibynnol ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyflym o’u mannau cychwyn ar fynediad i’r ysgol, yn enwedig yn eu dealltwriaeth o’r Gymraeg. Wrth iddynt aeddfedu, mae llawer yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, maent yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith. Maent yn datblygu eu medrau mathemateg a digidol yn briodol mewn gweithgareddau sy’n dwysáu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o wahanol feysydd y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion addysg dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai sy’n gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim yn cyflawni’n dda.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando’n dda ar oedolion sy’n eu cefnogi i ddefnyddio geirfa a phatrymau iaith yn gynyddol gywir dros amser. Mae disgwyliadau a dulliau addysgu medrus staff yn helpu’r rhan fwyaf o ddisgyblion i gaffael a defnyddio’r Gymraeg yn naturiol. Mae disgyblion y dosbarth meithrin yn datblygu geirfa addas wrth ddysgu am dymor yr hydref, er enghraifft. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn defnyddio ansoddeiriau’n dda i ddisgrifio symbolau a phatrymau Celtaidd. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio iaith berthnasol yn y ddwy iaith, er enghraifft i gyflwyno gwybodaeth am hanes effaith y Blits.

Un o rinweddau nodedig yr ysgol yw’r amgylchedd dysgu hynod ddeniadol sy’n hyrwyddo diwylliant darllen ymysg disgyblion yn llwyddiannus. Mae llawer o’r disgyblion ieuengaf yn dod i adnabod seiniau llythrennau unigol ac yn eu cyfuno’n fedrus i ddarllen geiriau syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio ystod dda o ddulliau i ddarllen testunau addas, sy’n eu cefnogi i amrywio goslef llais wrth ddarllen yn gynyddol rugl. Mae’r disgyblion hynaf yn adnabod nodweddion fel teitl, awdur a broliant yn gywir, ar y cyfan, ac yn mwynhau ymgolli wrth ddarllen llyfrau a thestunau digidol amrywiol yn y Gymraeg a Saesneg. Mae llawer yn defnyddio eu medrau darllen uwch i gywain a choladu gwybodaeth am wahanol themâu, er enghraifft am enwogion fel Louis Braille. Er hyn, ar draws yr ysgol, mae ychydig o ddisgyblion yn cael trafferth deall cynnwys testunau Cymraeg, sy’n arafu cynnydd yn eu medrau darllen.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn gadarn. Mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod o adnoddau i greu marciau i ddatblygu rheolaeth llaw a llygaid yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio ystod dda o eirfa mewn cyfres o frawddegau ddiddorol, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer adeiladu tŷ. Mae’r disgyblion ieuengaf yn ysgrifennu’n annibynnol yn yr ardal farcio gan gydweithio’n ddiwyd i ysgrifennu rhestr o aelodau’r teulu, er enghraifft. Wrth i fedrau disgyblion aeddfedu, maent yn ysgrifennu’n glir a threfnus mewn ystod dda o ffurfiau creadigol a ffeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ysgrifennu portread o löwr yn Saesneg gan ddefnyddio agoriadau creadigol a chymariaethau diddorol mewn paragraffau trefnus. At ei gilydd, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflwyno eu gwaith gan ddangos parch wrth ddefnyddio llawysgrifen daclus.

Ar draws yr ysgol, mae medrau mathemateg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r dulliau addysgu cyson a'r adnoddau perthnasol yn cefnogi disgyblion i ddwysáu eu dealltwriaeth o rif a gwerth mewn ystod briodol o weithgareddau, fel gemau mathemateg. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio termau cywir wrth ddisgrifio nodweddion siapiau 2D tra bod y disgyblion hynaf yn trawsffurfio siapiau mewn pedwar cwadrant yn llwyddiannus. Mae medrau trin data disgyblion yn datblygu'n gyson. Yn gyffredinol, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn datblygu eu dealltwriaeth o batrwm yn effeithiol wrth ddylunio a phrintio siapiau fel rhan o'u dysgu am batrymau celf William Morris. Yn gyffredinol, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi mwyafrif y disgyblion i adeiladu a chymhwyso eu medrau rhifedd mewn profiadau dysgu go iawn yn ddigon effeithiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu eu medrau digidol yn llwyddiannus yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau codio cynnar i roi cyfarwyddiadau i declyn ddilyn llwybr penodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn hyderus i fewngofnodi i'w cyfrifon ac yn defnyddio ystod dda o raglenni ac apiau i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd a chyflwyno gwaith creadigol. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn datblygu eu dealltwriaeth o fformiwlâu yn dda, er enghraifft wrth gasglu data a dehongli nodweddion tywydd ar draws y byd. Wrth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau'n briodol, mae llawer yn cyflwyno gwybodaeth mewn dull aml-gyfrwng, er enghraifft i gyflwyno gwybodaeth am drychineb Aberfan.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol mewn ystod ddiddorol o weithgareddau dysgu. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau wrth efelychu ffotograff aelodau o'r teulu gan ddefnyddio lliwiau paent gwahanol yn fedrus. Mae disgyblion yn mwynhau perfformio ystod o symudiadau cydlynus fel rhan o berfformiadau dawns; er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn cyfleu waliau'n dymchwel mewn cyflwyniad creadigol i gyfeiliant cerddoriaeth.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus o fewn yr amgylchedd gynhwysol a chynhaliol. Maent yn falch o siarad Cymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, er enghraifft wrth i'r disgyblion hynaf hybu a chefnogi'r rhai ieuengaf i ddysgu a chwarae gan ddefnyddio'r iaith. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes rhywbeth yn eu poeni. Maent yn mynegi eu teimladau'n gyson wrth nodi unrhyw bryder yn y bwlch 'Post Pryder' ac yn falch o dderbyn cefnogaeth effeithiol gan staff trwy'r dull 'sudd a sgwrs' yng Nghwtsh Cynon. Mae lles emosiynol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn, sydd yn ei dro yn eu cefnogi i ymroi'n dda i'w dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos empathi i anghenion dysgu ei gilydd. Maent yn cefnogi eu cyfoedion yn effeithiol ac yn barod i'w helpu a'u cynnwys yng ngweithgareddau'r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn cyflwyno stori Y Tri Mochyn Bach yn frwdfrydig gan ddefnyddio iaith arwyddion yn hynod lwyddiannus. Trwy hyn, mae disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr creadigol a medrus sy'n falch o fod yn aelodau unigryw a gwerthfawr o gymuned yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn gwrtais gan ddangos gofal at ei gilydd, at oedolion ac ymwelwyr. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn cydweithio'n barchus wrth gyfateb rhifau i'r nifer cywir o wrthrychau wrth ddatrys problemau mewn gêm fathemateg. Mae disgyblion yn mwynhau sgwrsio am eu gwaith ac yn ymateb yn addas i adborth sy'n darparu cefnogaeth berthnasol iddynt lwyddo. Yn gyffredinol, mae llawer yn ymroi'n briodol i'w tasgau ac maent yn falch o gyflwyno gwaith da, er enghraifft wrth i ddisgyblion dosbarth derbyn ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau creadigol i greu fframiau lluniau. Er hyn, mewn ychydig o ddosbarthiadau, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i ymroi'n chwilfrydig, hyderus ac uchelgeisiol i'w dysgu bob tro.

At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n briodol ar gyflwyniadau, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni gweithgareddau. Maent yn rhoi cynnig ar dasgau newydd sy'n eu herio'n addas, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 6 ddyfalbarhau i gyflwyno codau Morse cudd mewn gweithgaredd gwyddonol. Mae llawer o ddisgyblion yn dyfalbarhau'n briodol ac yn dangos gwydnwch addas mewn gweithgareddau sy'n dechrau meithrin eu medrau dysgu annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach a chadw'n heini. Mae llawer yn ymroi'n dda i weithgareddau sy'n datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth i'r disgyblion ieuengaf gydbwyso wrth ddilyn llwybr igam ogam ar fuarth yr ysgol. Mae'r disgyblion hynaf yn ymroi'n gyson mewn clybiau allgyrsiol fel chwaraeon a pherfformio. Maent yn datblygu eu medrau rheoli pêl yn fedrus ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn cystadlaethau a thwrnameintiau lleol a rhanbarthol.

Mae'r llysgenhadon a'r cyngor iechyd a lles yn cymryd cyfrifoldeb dros y siop ffrwythau yn ystod amser egwyl ac yn cefnogi disgyblion i gyd-chwarae'n hapus wrth ddefnyddio'r gemau buarth newydd. Mae bron bob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar-lein ac yn deall pwysigrwydd peidio â rhannu cyfrineiriau ac unrhyw wybodaeth ddigidol gydag eraill. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n dda wrth i ddisgyblion ddylunio poster sy'n hyrwyddo diogelwch ar y we.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau arwain yn llwyddiannus drwy wahanol grwpiau, sy'n dechrau dylanwadu'n effeithiol ar ddatblygiadau ac amgylchedd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r llysgenhadon yn dewis hawl y mis ac mae disgyblion Blwyddyn 6 yn penderfynu ar werth y mis, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus i ddatblygu dealltwriaeth eu cyfoedion o fod yn ddinasyddion moesol a gwybodus. Mae aelodau'r senedd yn awyddus i weithredu ar nodau eu cynlluniau gweithredu i gyfoethogi profiadau eu cyfoedion ymhellach yn yr ysgol.

Mae bwlch presenoldeb ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn cynyddu wrth gymharu â chyfraddau grwpiau eraill.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Yn ddiweddar, mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer datblygu Cwricwlwm i Gymru. Trwy ddarpariaeth briodol, mae'r staff cyfan yn dechrau cyfrannu'n frwdfrydig at gyflwyno profiadau dysgu sydd wedi eu seilio ar werthoedd yr ysgol. Mae athrawon yn darparu cwricwlwm cytbwys, ar y cyfan, sy'n adeiladu ar wybodaeth,

dealltwriaeth a medrau disgyblion yn dda, yn gyffredinol. Yn ddiweddar, mae athrawon yn dechrau cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu drwy gynnig awgrymiadau am weithgareddau dysgu. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael digon o amser i wreiddio na chael effaith gyson ar gynnydd disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r holl staff yn sefydlu perthynas waith ofalgar â disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu hapus a diogel. Mae athrawon ymroddedig a chynorthwywyr cefnogol yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu profiadau dysgu sy'n diwallu anghenion llawer o ddisgyblion yn briodol. Maent yn annog a chymell disgyblion i ymroi i'w dysgu yn gyson. Ar y cyfan, mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn fedrus gan eu cefnogi'n dda i ganolbwyntio a dyfalbarhau i lwyddo yn eu dysgu.

Yn yr arfer orau, mae llawer o athrawon yn cyflwyno gweithgareddau dysgu sy'n symbylu disgyblion i ddatblygu eu medrau mewn ystod gyfoethog o brofiadau. Mae athrawon yn cynnal eu diddordeb yn dda trwy eu herio a'u holi'n fedrus a sicrhau rhediad da i'r dysgu. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, yn rhannu nodau tasgau yn effeithiol trwy'r dull Cerrig Camu Cynon, ac yn cefnogi disgyblion i ymgolli yn eu dysgu a chyflawni'n dda. Yn yr arfer llai effeithiol, nid yw disgwyliadau ychydig o athrawon yn ddigon uchel i herio disgyblion i gyflawni'n dda bob tro. Yn gyffredinol, maent yn gor-arwain y dysgu sy'n llesteirio gallu disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr mentrus ac annibynnol. Ar adegau, mae hyn yn cyfyngu disgyblion o ran gwneud penderfyniadau am beth maent yn ei ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith.

Mae staff yn adnabod eu disgyblion a'u sefyllfa cartref yn dda ac yn diwallu anghenion gwahanol grwpiau yn feistrolgar, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, ymddygiad heriol a dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan dlodi. Mae cynorthwywyr yn cefnogi'r dysgu yn hynod gadarn ac yn arwain grwpiau penodol yn fedrus. Er enghraifft, mae cynorthwywyr yn darparu amrywiaeth dda o raglenni sy'n rhoi cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau lles, llythrennedd a rhifedd.

Mae staff yn gweithio'n ddiwyd i greu amgylchedd dysgu sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn dda. Maent yn trefnu dosbarthiadau'n effeithiol, gan gynnwys yr ardaloedd darllen sy'n ddeniadol ymhob dosbarth. Mae'r adnoddau a'r ardaloedd buddiol ar fuarth yr ysgol yn cael eu defnyddio'n addas i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae athrawon yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn briodol drwy ddefnydd cyson a gwerthfawr o ymwelwyr ac ymweliadau addysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau sioeau addysgol yn yr ysgol ac yn mynd ar ymweliadau i amgueddfeydd lleol i ddwysáu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am wahanol feysydd y cwricwlwm.

Mae'r iaith Gymraeg yn greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol ac mae staff yn manteisio ar bob cyfle i fodelu a chefnogi medrau llafar disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r ddisgyblion ieuengaf chwarae gemau llafar i atgyfnerthu patrymau 'Rydw i'n hoffi' a 'Dydw i ddim yn hoffi'. Mae'r disgyblion hynaf yn dysgu am chwedlau Cymru, fel chwedl Branwen mewn cyflwyniad creadigol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar frwdfrydedd disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd wrth ddysgu am hanes a thraddodiadau Cymru. Mae'r disgyblon ieuengaf yn tynnu lluniau digidol o gartrefi gwahanol er enghraifft, gan ddefnyddio teclyn yn annibynnol wrth ymweld ag amgueddfa leol, gan eu harddangos yn ddeniadol ar furlun 'Hanesogram' yn y dosbarth. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu

cyfleoedd ysgogol a chyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd mewn profiadau ysgogol ar draws y cwricwlwm.

Yn ddiweddar, mae staff yn defnyddio gwybodaeth asesu yn effeithiol ac yn olrhain cynnydd disgyblion unigol a grwpiau penodol yn gelfydd i gynllunio ar eu cyfer. Mae hyn yn sicrhau bod athrawon yn ymateb yn brydlon i anghenion disgyblion ac yn eu cefnogi'n amserol. At ei gilydd, maent yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol gan sicrhau bod disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i symud eu dysgu ymlaen. Mae disgyblion yn defnyddio dulliau penodol i amlygu agweddau da a meysydd i'w datblygu yn eu gwaith yn effeithiol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau trafod sut maent yn gwella eu gwaith a'r cynnydd yn eu dysgu.

Mae athrawon yn datblygu cyfleoedd gwerthfawr i ymgysylltu'n rhagweithiol â rhieni wrth iddynt gefnogi medrau eu plant. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae athrawon yn cyflwyno gwybodaeth ddefnyddiol i rieni fel rhan o'r trefniadau 'Cwrdd gyda'r athro'. Mae hyn, ynghyd â chyflwyniadau am ddarllen, yn dechrau cryfhau'r broses gyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth berthnasol am les a chynnydd eu plant fel rhan o'r trefniadau adrodd blynyddol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynnes, ofalgar a hapus sy'n gosod pwyslais clir ar ddiogelu disgyblion a hyrwyddo'u lles yn effeithiol. Er enghraifft, mae grŵp o ddisgyblion yn cael sesiynau creadigol ac ymarferol yn ddyddiol i'w cefnogi i wella eu lles emosiynol. Mae staff yn annog disgyblion i barchu ei gilydd a gwerthfawrogi amrywiaeth yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym ac yn dod yn aelod cyflawn o gymuned yr ysgol.

Mae staff yn gosod pwyslais cadarn ar gynnig darpariaeth sy'n diwallu anghenion unigol disgyblion er mwyn eu datblygu'n ddysgwyr cyflawn. Maent yn darparu rhaglenni pwrpasol ar gyfer y rhai sydd angen cefnogaeth ychwanegol, gan gynnwys disgyblion bregus. Mae staff yn cydweithio'n briodol â phartneriaethau ac ysgolion cyfagos, gan gynnwys ysgolion uwchradd, a gydag asiantaethau allanol fel y tîm iaith a lleferydd a'r seicolegydd addysg. Mae athrawon yn darparu cynlluniau addysgu unigol, sy'n cynnwys targedau lles a dysgu i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i wneud cynnydd priodol. Mae athrawon a'r rhieni yn llunio'r cynlluniau gyda'i gilydd sy'n cefnogi'r disgyblion i wybod beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae athrawon yn gweithredu systemau effeithiol i olrhain a monitro lles a chynnydd disgyblion, ac erbyn hyn, maent yn dadansoddi'r wybodaeth yn fedrus. O ganlyniad, mae ganddynt adnabyddiaeth dda o anghenion disgyblion ac yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am hanes Cymru fel diwydiant glo'r ardal, ac am yr effaith yn lleol a'r byd ehangach. Mae staff yn hybu datblygiad creadigol disgyblion yn effeithiol drwy berfformiadau cerddorol a mynegiannol yn yr ysgol a'r gymuned. Yn ogystal, mae athrawon yn cynnig profiadau celf a dylunio gwerthfawr i ddisgyblion, sy'n cynnwys efelychu gwaith artistiaid fel David Bowen a Will Evans. Mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o sain cerddoriaeth tra'n gwerthuso eu perfformiad wrth chwarae offerynnau cerdd, er

enghraifft i alaw yr anthem genedlaethol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at gryfhau eu dealltwriaeth o'u hunaniaeth, etifeddiaeth a'u diwylliant.

Mae staff yn darparu cyfnodau priodol i ddisgyblion ddatblygu agweddau ysbrydol, moesol a chymdeithasol. Maent yn rhoi cyfleoedd buddiol iddynt fyfyrio ac ystyried gwerthoedd ac agweddau pwysig fel perthnasoedd iach a chydraddoldeb, ac am wahanol grefyddau a diwylliannau. Mae athrawon yn hyrwyddo ymddygiad da rhwng disgyblion a'i gilydd drwy sesiynau perthnasol sy'n dwysáu eu dealltwriaeth yn effeithiol o fod yn aelodau gwerthfawr a pharchus o gymuned yr ysgol a thu hwnt.

Mae gan ddisgyblion gyfleoedd rheolaidd i ymgymryd â chyfrifoldebau a datblygu eu medrau arwain drwy gyfrwng y gwahanol gynghorau. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi cyfrannu'n effeithiol at un o flaenoriaethau'r ysgol drwy sefydlu raffl presenoldeb. Mae hyn wedi gwella dyhead disgyblion i ddod i'r ysgol ac wedi arwain at gynnydd mewn presenoldeb. Mae gweithdrefnau'r ysgol i sicrhau presenoldeb a phrydlondeb cyson i ddisgyblion yn gadarn.

Fel rhan o ddarpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol, mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau sy'n dwysáu eu gwybodaeth am ddewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor lles yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol wrth iddynt gyfrifo elw wythnosol y siop ffrwythau. Trefnir ystod o gyfleoedd i ddatblygu ffitrwydd a medrau corfforol y disgyblion drwy'r clwb chwaraeon a chyfleoedd i gymryd rhan a llwyddo mewn cystadlaethau chwaraeon.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf ac mae systemau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol i ddiogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ers i'r pennaeth dros dro gael ei phenodi, mae hi wedi gweithio'n ddiwyd i sefydlu a chryfhau strategaethau arwain yr ysgol. Yn ddiweddar, mae hyn yn dechrau cael dylanwad cadarnhaol ar ymddygiad a chynnydd disgyblion. Mae ei brwdfrydedd yn meithrin ymdeimlad o gydweithio ymysg staff, ac yn anelu at gysondeb yn yr addysgu ar draws yr ysgol. Mewn byr amser, mae'r uwch dîm rheoli, lle mae rhai aelodau'n gyffredinol newydd i'w cyfrifoldebau, wedi gweithio'n ystyrlon â'i gilydd i adnabod cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Fel tîm, maent yn arwain ar weithdrefnau strategol sy'n dechrau dwyn ffrwyth. Er enghraifft, maent yn cynnal cyfarfodydd tymhorol gydag athrawon er mwyn datblygu'r ddarpariaeth a chanolbwyntio'n ystyrlon ar ddiwallu anghenion disgyblion. Mae'r pennaeth dros dro wedi dyrannu cyfrifoldebau'n fwriadus sy'n cefnogi staff ar bob lefel i ddeall a chyflawni eu rolau yn effeithiol. Mae hyn wedi codi morâl y staff, ac wedi sbarduno eu brwdfrydedd at addysgu gan ddechrau ymateb i anghysondebau ar draws yr ysgol.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar y chwech 'C', sy'n cynnwys 'Cymreictod, Cydweithio a Cheisio ein gorau glas'. Mae ethos clós a chynhwysol yr ysgol yn sicrhau bod llais disgyblion yn dechrau dylanwadu'n gyson ar y weledigaeth hon. Mae'r weledigaeth yn cael lle amlwg yng ngwaith bob dydd yr ysgol ac mae staff erbyn hyn yn cyfeirio ati'n rhagweithiol mewn trafodaethau defnyddiol.

Mae arweinwyr yn modelu disgwyliadau uchel o'u hunain, y staff a'r disgyblion. Yn gyffredinol, maent yn arddangos gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarn at wella'r ysgol. Mewn byr amser, maent wedi datblygu dulliau cadarn ar gyfer sefydlu proses hunanwerthuso effeithiol. Mae'r dulliau hyn yn dechrau cael dylanwad cyson ar les, ymddygiad a chynnydd llawer o ddisgyblion. Er hyn, mae'n rhy fuan i fesur effaith y dulliau ar ansawdd cyson yr addysgu a chynnydd cynaledig disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda, ac yn ymwybodol o'r angen am sefydlogrwydd yn arweinyddiaeth yr ysgol. Maent wedi dechrau cynnal teithiau dysgu buddiol ac yn ymuno â gweithgareddau craffu llyfrau. O ganlyniad, maent yn datblygu gwell ddealltwriaeth o effaith y ddarpariaeth ar ddatblygiad a chynnydd disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth gywir o flaenoriaethau'r ysgol ac yn adnabod y cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Maent yn sicrhau bod yr ysgol yn defnyddio'i hadnoddau'n effeithiol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i hybu a chefnogi'r dysgu. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae is-bwyllgor 'ymglymiad â'r gymuned' y corff llywodraethol yn creu cysylltiadau da ag aelodau o'r gymuned sy'n cydweithio'n effeithiol i gefnogi'r ysgol. Mae'r disgyblion hynaf yn elwa'n werthfawr o'r berthynas sydd rhyngddynt ag ardal rhandir y pentref. Yn yr ardal allanol hon, caiff disgyblion gyfleoedd buddiol i gydweithio ag aelodau o'r gymuned leol i ddatblygu eu medrau arbrofi, darganfod, cymryd risg a datrys problemau, er enghraifft. Ar y cyd, maent wedi creu ardal amlsynhwyraidd sy'n cael ei defnyddio'n effeithiol gan yr ysgol ar gyfer sesiynau myfyrio, ac sydd hefyd yn cael ei mwynhau'n gyson gan eraill yn y gymuned. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion caredig a pharchus.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n fwriadus i feithrin lles a datblygu medrau disgyblion gan sicrhau nad ydynt yn cael eu heffeithio'n niweidiol gan dlodi. Er enghraifft, mae'r ethos o gynhaliaeth a chefnogaeth yn elfen gref o ddiwylliant yr ysgol gyda hyn yn arwain at gyfleoedd pwrpasol i hybu a chefnogi cyfleoedd dysgu proffesiynol yr holl staff. Er enghraifft, trefnir hyfforddiant pwrpasol ar gyfer athrawon ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad, yn ogystal â hyfforddiant i arfogi cynorthwywyr i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn fwy effeithlon. Mae'r cyfleoedd gwerthfawr hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Mae staff hefyd yn cydweithio ag ysgolion eraill i rannu a datblygu arfer broffesiynol, yn arbennig ym maes llythrennedd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2023